



Methodoleg System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol (LEAMS)

2021-22



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Methodoleg LEAMS

Mae'r fethodoleg ar gyfer arolygon LEAMS yn adlewyrchu'r Côt Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff a Chanllawiau Cysylltiedig 2007, sy'n perthyn i ran IV o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Mae pob arolwg yn cynnwys sampl o 6% o strydoedd, a ddewisir ar hap o restr lawn o briffyrdd mabwysiedig a ddarperir gan bob awdurdod lleol. Mae LEAMS yn asesu ansawdd yr amgylchedd lleol drwy gyfrwng arolwg gweledol o hyd 50 metr o un ochr o'r stryd (a elwir yn drawslun), sy'n cynnwys y palmant ac ychydig o'r gwter, gan gofnodi'r wybodaeth isod.

1. Gradd Gyffredinol o ran Glendid

Mae'r radd wedi'i selio ar faint o sbwriel a baw cŵn sy'n bresennol.

Gradd A	Gradd B+	Gradd B	Gradd C	Gradd D
<ul style="list-style-type: none">Dim sbwriel na gwastraff	<ul style="list-style-type: none">Dim mwy na 3 eitem fach o sbwriel	<ul style="list-style-type: none">Ar y cyfan yn rhydd o sbwriel a gwastraff ac eithrio rhai eitemau bach	<ul style="list-style-type: none">Dosbarthiad eang o sbwriel a/neu wastraff gyda chroniadau bach	<ul style="list-style-type: none">Llawer iawn o sbwriel a/neu wastraff gyda chroniadau sylweddol

2. Parthau

Rydym yn categorio bob stryd yn ôl parthau, fel a ganlyn:

- Defnydd Tir
 - Parth 1: Canol trefi, canolfannau siopa, canolfannau trafndiaeth mawr.
 - Parth 2: Ardaloedd preswyl dwysedd uchel, ardaloedd hamdden prysur.
 - Parth 3: Ardaloedd preswyl dwysedd isel, ystadau diwydiannol.
- Dwyster Defnydd
 - Defnydd dwysedd uchel: mannau cyhoeddus prysur.
 - Defnydd dwysedd canolig: ardaloedd gyda thai'n bennaf.
 - Defnydd dwysedd isel: ardaloedd â thraffig ysgafn (gan gynnwys ffyrdd gwledig).

3. Sbwriel

Rydym yn cofnodi os yw'r canlynol yn bresennol neu'n absennol.

Mathau	Ffynonellau
Ysmygu	Cerddwyr
Diodydd	Busnes
Melysion	Domestig
Bwyd Brys	Adeiladu
	Ysgarthion Anifeiliaid
	Erail
	Gwydr

Rydym hefyd yn casglu data ar sbwriel sbwng polystyren a chynwysyddion diodydd a gwybodaeth ar eitemau defnydd untro ers 2021-22, gan gyfri sawl item sydd yn bresennol. Dyma'r categorïau:

Sbwng Polystyren	Cynwysyddion Diodydd	Eitemau defnydd Untro
Bwyd Brys	Poteli Plastig	Cadachau gwlyb
Eraill	Caniau	Caeadau Diodydd Bwyd Brys
	Poteli Gwydr	Pecynnu Bwyd Brys
	Cartonau	Troellwyr
	Cwpanau Bwyd Brys	Gwellt Yfed
	Cydau Ffoil	Cyllyll a Ffyrç Untro
		Bydiau Cotwm
		Bagiau
		Balŵn

4. Dangosyddion Ansawdd Amgylcheddol Andwyol (DAAA)

Dyfernir gradd i **faw cŵn**, **fandaliaeth** a **chwyn** fel a ganlyn:

1	2	3	4
• Absennol	• Presenoldeb bach	• Presenoldeb sylweddol	• Presenoldeb difrifol

Baw cŵn yw'r unig fater sy'n effeithio ar y radd glendid. Lle y ceir baw cŵn, nid oes modd i drawslun sgorio'n uwch na gradd B, tra bo presenoldeb sylweddol yn arwain at radd C, a phresenoldeb difrifol at radd D.

Detritws ydy unrhyw ddeunydd naturiol neu fater organig sydd wedi torri i lawr.

Dyfernir gradd i **ddetritws** fel a ganlyn:

Gradd A	Gradd B+	Gradd B	Gradd C	Gradd D
• Dim detritws	• Dim mwy na 3 eitem o ddetritws	• Ar y cyfan yn rhydd o ddetritws heblaw am ychydig bach	• Dosbarthiad eang o ddetritws gyda chroniadau bach	• Llawer iawn o ddetritws gyda chroniadau sylweddol

Dyfernir gradd i **graffiti** fel a ganlyn:

Gradd A	Gradd B+	Gradd B	Gradd C	Gradd D
• Dim graffiti	• Dim mwy nag un darn bach iawn o graffiti - ni fyddai pobl sy'n pasio yn sylwi arno	• Rhywfaint o graffiti bach - ni fyddai llawer o bobl sy'n pasio yn sylwi arno	• Mae graffiti yn glir o o leiaf un pen o'r trawslun	• Mae graffiti yn glir iawn ac yn tynnu sylw am ei fod dros ran fawr o'r trawslun ac yn weladwy o bob rhan o'r trawslun

Dyfernir gradd i **bosteri anghyfreithlon** fel a ganlyn:

Gradd A	Gradd B+	Gradd B	Gradd C	Gradd D
<ul style="list-style-type: none"> Dim posteri anghyfreithlon 	<ul style="list-style-type: none"> Dim mwy nag un poster anghyfreithlon bach iawn - ni fyddai pobl sy'n pasio yn sylwi arno 	<ul style="list-style-type: none"> Rhywfaint o bosteri anghyfreithlon bach mewn maint - ni fyddai llawer o bobl sy'n pasio yn sylwi arno 	<ul style="list-style-type: none"> Mae posteri anghyfreithlon yn glir o o leiaf un pen o'r trawslun 	<ul style="list-style-type: none"> Mae posteri anghyfreithlon yn glir iawn ac yn tynnu sylw am eu bod dros ran fawr o'r trawslun ac yn weladwy o bob rhan o'r trawslun

Dangosyddion Glendid

Defnyddir y radd gyffredinol o lendid i gyfrifo:

a) Y Dangosydd Glendid

Caiff y Dangosydd Glendid ei gyfrifo o'r graddau cyffredinol o ran glendid strydoedd (A-D) ac mae'n amrywio o 0 i 100. Mae pwysedd yn perthyn i bob gradd.

$$\text{Dangosydd Glendid} = \frac{\text{Y Gwir Sgôr}}{\text{Y Sgôr Uchaf Posib}} \times 100$$

Esiaml o gyfrifo'r Dangosydd Glendid gan ddefnyddio sampl o 30 o strydoedd:

	Nifer y Strydoedd o'r Radd Honno	Pwysedd	Sgôr
Gradd A	2	3	6
Gradd B+	3	2.5	7.5
Gradd B	22	2	44
Gradd C	2	1	2
Gradd D	1	0	0
Cyfansymau	30		59.5

Y Sgôr Uchaf Posib: 30 (cyfanswm nifer y strydoedd) \times 3 (pwysedd gradd A) = 90

Dangosydd Glendid = $\frac{59.5}{90} \times 100 = 66.1$

90

Os dyfernir gradd B (lefel derbyniol o lendid) i bob stryd, yna 66.7 ydy'r Dangosydd Glendid.

b) Canran y strydoedd a ddyfernir gradd B ac uwch

Cyfunir data annibynnol Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer pob awdurdod lleol ar ganran y strydoedd a ddyfernir gradd B ac uwch gyda ffigyrau'r arolygon a wneir gan yr awdurdodau lleol i gyfrifo'r Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus ar gyfer Strydoedd Glân.



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13

